OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 260

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023

RHAN 4

Yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol

Tâl salwch amaethyddol i gymryd tâl salwch statudol i ystyriaeth

23. Caniateir i swm sy'n hafal i unrhyw daliad tâl salwch statudol a wneir yn unol â Rhan XI o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**1**) mewn cysylltiad â chyfnod absenoldeb salwch gweithiwr amaethyddol gael ei dynnu oddi ar dâl salwch amaethyddol y gweithiwr hwnnw.

(**1**) 1992 p. 4.